

SEFWCH DROS HAWLIAU DYNOL

GRWPIAU IEUENCTID AMNEST RHYNGWLADOL



Os ydych yn angerddol dros hawliau dynol ac rydych chi eisiau cymryd camau gweithredol gydag eraill yn rheolaidd, gallwch sefydlu eich grŵp ieuenctid Amnest eich hunan.

Beth sy'n digwydd mewn grwpiau ieuenctid?

Mae tua 650 o grwpiau ieuenctid Amnest yn y DU, wedi'u lleoli mewn ysgolion, colegau a chlybiau ieuenctid, sydd fel arfer yn cyfarfod unwaith yr wythnos.

Bob mis, bydd grwpiau'n derbyn deunydd drwy'r post am ymgyrchoedd byd-eang Amnest, ynghyd â gwahoddiadau i ddigwyddiadau (dangosiadau ffilm, protestiadau ac arddangosfeydd ayyb) a Youth Urgent Action. Mae Camau Gweithredu Brys yn canolbwyntio ar unigolion neu ar grwpiau mewn perygl o gwmpas y byd, ac yn awgrymu camau gweithredu i helpu i'w hamddiffyn. Yn aml gall grŵp gyflawni mwy nag y byddai ei aelodau yn gwneud fel unigolion. Bydd bod yn rhan o grŵp ieuenctid Amnest hefyd yn rhoi profiad i chi o redeg ymgyrchoedd a gall hyd yn oed eich helpu yn ddiweddarach gyda'ch ceisiadau am swyddi neu am y brifysgol.

Drwy ddechrau neu ymuno â grŵp ieuenctid Amnest gallwch:

- drefnu digwyddiadau, gigs ac ymgyrchoedd creadigol hwyllog
- gwneud ffilmiau am hawliau dynol (a'u rhoi ar YouTube a www.protectthehuman.com)
- cynnal gwasanaethau yn yr ysgol
- cael eich cyfnewid gan eich papur newydd neu eich gorsaf radio lleol
- lobïo eich AS lleol
- trefnu gwylnosau neu brotestiadau
- casglu llofnodion ar gyfer deisebau
- ysgrifennu llythyrau at garcharorion cydwybod a swyddogion llywodraeth ledled y byd
- cefnogi Amnest mewn ymgyrchoedd byd-eang, megis Stopiwch Drais yn Erbyn Menywod a Hawliwch Urddas
- mynychu digwyddiadau cenedlaethol gydag aelodau eraill o Amnest
- cael dylanwad ar sut mae Amnest yn ymgyrchu dros hawliau dynol drwy bleidleisio yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol
- codi arian ac ymwybyddiaeth dros Amnest
- gwneud ffrindiau gyda phobl sy'n meddwl yr un peth â chi



PROTESTIADAU

Dathlodd Grŵp Ieuenctid Belfast Ddiwrnod Rhyngwladol y Menywod drwy protestio y tu allan i Neuadd y Ddinas, gyda baneri a wnaed gartref a band Samba. Roeddent yn cymryd camau gweithredu er mwyn cydsefyll â Women of Zimbabwe Arise (WOZA), mudiad dinesig i fenywod sy'n caniatáu i bobl Zimbabwe ddweud eu dweud ar faterion efallai eu bod yn rhy ofnus i'w codi ar eu pennau eu hunain.



DEISEBAU

Casglodd y Grŵp Amnest yn Ysgol Uwchradd James Gillespies 595 llofnod ar gyfer deiseb yn galw am gau Bae Guantanamo. Cyflwynodd y disgyblion y ddeiseb i gonsyliaeth yr UD yng Nghaeredin.



GWASANAETHAU YSGOL

Cynhaliodd y grŵp Amnest yn Ysgol Heathfield, Pinner yn Llundain wasanaeth ysgol am yr Ymgyrch dros Gydraddoldeb yn Iran.



PROSIECTAU CYFOEDION

Cymerodd disgyblion yn Ysgol Mulberry i Ferched yn Nwyrain Llundain rolau'r athrawon am y diwrnod. Gwnaethant ddysgu dosbarth o ddisgyblion 15 oed am Ddatganiad Cyffredinol Hawliau Dynol gan ddefnyddio'r pecyn Amnest Mae Hawliau Dynol yn Hawliau i Ni.



ACTIFIAETH AR-LEIN

Mae actifyddion ifanc Amnest wedi creu proffiliau ar www.protectthehuman.com, a byddant yn uwchlwytho storïau, ffotograffau a fideos yn rheolaidd. Mae'r gymuned ar-lein hon yn lle gwyb ar gyfer trafod hawliau dynol a chyfarfod ag actifyddion ifanc eraill.



CYHOEDDUSRWYDD

Cyhoeddodd papur newydd y Teesdale Mercury erthygl am AS lleol yn ymweld â'r grŵp ieuenctid yn Ysgol Staindrop, a gwnaethant hefyd argraffu'r ffotograff hwn o'r gŵp yn ymgyrchu.

A allwch wir gael effaith?

O ran mwy na thraean o'r achosion y mae Amnest yn gweithio arnynt bob blwyddyn, ceir peth gwelliant – atelir poenydio, deuir o hyd i rywun a restrwyd fel 'wedi diflannu', bydd carcharor yn osgoi cael ei ddiennod. Bydd pobl sydd wedi dioddef camdriniaeth hawliau dynol yn aml yn dweud bod



pwysau rhyngwladol wedi sicrhau eu rhyddid ac achub eu bywydau. Dedfrydwyd amddiffynnydd hawliau dynol Saidzhakhon Zainabitdinov o Uzbekistan i saith mlynedd yn y carchar yn 2006, ar ôl cael prawf annheg. Fe'i rhyddhawyd yn annisgwyl yn 2006, o ganlyniad, yn ei farn ef, i'r gefnogaeth gan sefydliadau megis

Amnest a anogodd yr awdurdodau i'w ryddhau. Derbyniodd 9,620 o lythrau cydsafiad, ac wrth iddo gael ei ryddhau, atebodd i aelod o Amnest yn Yr Alban a oedd wedi ysgrifennu ato...

'Do, ces i fy ngharcharu'n annheg. Dioddefais a gwnes i fyw trwy lawer o ddiwrnodau anodd. Ond nid arwr ydw i. Chi yw'r arwr! Eich cydwladwyr a phobl eraill yn y byd a ysgrifennodd ataf – 'Rydym yn meddwl amdanoch', 'Rydych bob amser yn ein meddyliau' – yw'r arwyr... roeddech chi a miloedd o bobl eraill yn debyg i chi yn achub bywyd bod dynol. Yn yr achos hwn gwnaethoch fy achub i.'

Sut i sefydlu grŵp ieuencid Amnest

- Sicrhewch ganiatâd gan y pennaeth.
- Os mai grŵp ysgol ydych, mae'n rhaid i athro weithredu fel y cyswllt awdurdodedig, ond gallwch gynnal y grŵp eich hunain.
- Ffi'r grŵp ieuencid yw £21 y flwyddyn. Mae'n rhaid i'r athro awdurdodedig godi sic e a thalu Amnest Rhyngwladol.
- Trefnwch ystafell gyfarfod reolaidd, gyda mynediad at y Rhyngwryd os yn bosibl.
- Hysbysebwb eich grŵp a'ch gweithgareddau, ee sefydlwch hysbysfwrdd Amnest, gwnewch gyhoeddiad yn y gwasanaeth a rhowch bosteri i fyny.

Cofrestru grŵp ieuencid Amnest

- Lawrlwythwch y ffurflen o www.amnesty.org.uk/povertyaction
- Gofynnwch i'ch athro lenwi'r ffurflen ym mhoced y ffolder yng nghefn y pecyn Tlodi a Hawliau Dynol
- Cysylltwch â Thîm Addysg a Myfyrwyr Amnest ar **020 7033 1596**, neu anfonwch neges e-bost at student@amnesty.org.uk

Pa gefnogaeth arall a roddir i grwpiau ieuencid?

Siaradwyr yn yr ysgol

Mae tua 108 o siaradwyr gwirfoddol yn y DU sydd wedi'u hyfforddi i siarad ag ysgolion a grwpiau ieuencid am hawliau dynol a gwaith Amnest. I drefnu, ffoniwch ni ar **020 7033 1596** neu anfonwch neges e-bost at student@amnesty.org.uk

Grwpiau Amnest lleol

Mae tua 280 o grwpiau Amnest mewn cymunedau yn y DU. Gwahoddwch gynrychiolydd i gyfarfod y grŵp er mwyn cael syniadau newydd a chyngor:

www.amnesty.org.uk/localgroups

Eich cyfarfod cyntaf

- Gwahoddwch siaradwr Amnest i roi sgwrs neu i gynnal gweithdy.
- Gallwn ddarparu cyflwyniad PowerPoint am Amnest gyda ffotograffau a nodiadau i siaradwyr.
- Dangoswch *Over to you* (ar y DVD yn y pecyn hwn), sy'n dangos grwpiau ieuencid yn cymryd camau gweithredu, a thanio syniadau ymgyrchu creadigol.
- Penderfynwch sut i strwythuro eich grŵp, ee etholwch gadeirydd a thrysorydd. Os yw'r grŵp yn ddigon mawr, dyrannwch wahanol swyddi/rolau i bobl, ee codi arian, cyhoeddusrwydd, Camau Gweithredu Brys, ymchwilio achosion.

